**<u>PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD</u>** **<u>EDC 13-01(p2)</u>**

**Dyddiad:** **31 Hydref 2001**
**Amser:** **2.00pm – 5.30pm**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**
**Teitl:** **AWDURDOD DATBLYGU CYMRU: Adolygiad Hanner Blwyddyn**

**Pwrpas**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir i'r Pwyllgor ar Adolygiad Hanner Blwyddyn Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) (yn Atodiad A).

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r hyn y mae'r Awdurdod wedi'i gyflawni o'i gymharu â'r targedau strategol yn yr Adolygiad Hanner Blwyddyn.

3. Bydd swyddogion o'r WDA yn mynychu cyfarfod y Pwyllgor i gyflwyno'r Adolygiad Hanner Blwyddyn ac i ddelio â chwestiynau:

- Graham Hawker – Prif Weithredwr
- Gareth Hall – Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Strategaeth

**Cefndir**

4. Mae Adroddiad Hanner Blwyddyn Awdurdod Datblygu Cymru (yn Atodiad A) yn nodi'r hyn y mae'r Awdurdod wedi'i gyflawni o'i gymharu â'i dargedau strategol yn ystod chwe mis cyntaf blwyddyn ariannol 2001-2002. Cyhoeddodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd y targedau hyn mewn datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad ar 3 Ebrill 2001. (Cyflwynodd adroddiad i'r Pwyllgor ar 4 Ebrill 2001 (EDC-06-01)).

5. Yn ei ddatganiad soniodd y Gweinidog hefyd am y symudiad oddi wrth y patrwm arferol o bennu targedau strategol blynyddol ar gyfer y WDA. O Ebrill 2002, bydd y canlynol yn cael eu pennu ar gyfer yr Awdurdod:

- Targedau Allbwn Blynyddol – sy'n perthyn yn benodol i weithrediadau yng Nghynllun Busnes blynyddol yr Awdurdod; a

- Thargedau Strategol – a fydd yn gysylltiedig â chylch Cynllunio Corfforaethol tair blynedd yr Awdurdod.

Roedd cynigion yr Awdurdod ar gyfer y Targedau Strategol tair blynedd newydd wedi'u

hamlinellu yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2002-2003 hyd at 2004-2005, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 11 Gorffennaf 2001 (EDC-11-01).

**Crynodeb**

6. Mae tabl un a dau'n nodi'r allbwn hyd yma o'i gymharu â thargedau strategol yr Awdurdod, y naill ar gyfer Cymru gyfan, a'r llall ar gyfer ardal Amcan Un Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

7. Mae'r ddogfen hefyd yn sôn am adolygu targedau, a bydd yr Awdurdod yn cyflwyno hyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i'w ystyried.

**Ystyriaeth**

8. Bydd y Pwyllgor yn sylwi bod y WDA eisoes yn rhagori ar ei dargedau ar gyfer 2001-2002 mewn nifer o feysydd, (mae'r Awdurdod wedi egluro pam fod amrywiadau yn ei adroddiad), ac mae'n rhagweld y bydd yn rhagori ar un o'i brif dargedau eto eleni, sef nifer y swyddi a gaiff eu creu.

**Agweddau Cydymffurfio**

9. Cafodd y WDA ei sefydlu o dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd). Mae pwerau o dan y Ddeddf wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad a'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a'i staff. Nid oes unrhyw faterion o reoleidd-dra na phriodoldeb.

**Goblygiadau ariannol**

10. Caiff y costau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r WDA yn ystod y flwyddyn ariannol hon eu talu o ddarpariaeth gyllidebol bresennol y WDA. Mae cyllideb ddrafft y Cynulliad a gyhoeddwyd ar 10 Hydref 2001 yn cynnwys gwariant arfaethedig y WDA ar gyfer pob un o'r tair blwyddyn ariannol nesaf. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad.